

Cofnodion y Cyngor – cyfarfod 170

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau a dydd Gwener 28 a 29 Mawrth 2019
Lleoliad:	Tŷ Pawb, Wrecsam
Yn bresennol:	28 Mawrth 2019: Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Marian Wyn Jones (MWJ), Dafydd Rhys (DR), Richie Turner (RT), Iwan Bala (IB), Melanie Hawthorne (MH), Mike Griffiths (MG), Andrew Miller (AM), Alan Watkin (AW). 29 Mawrth 2019: Fel uchod a Kate Eden (KE)
Yno:	Nick Capaldi (NC), Kath Davies (KD), Diane Hebb (DH), Sian Tomos (ST), Siôn Brynach (SB), Chris Batsford (CB), a Helen Williams (HW) – yn cymryd cofnodion
Ymddiheuriadau:	28 Mawrth 2019: Rachel O’Riordan (ROR), Kate Eden (KE), John Williams (JW) 29 Mawrth 2019: Rachel O’Riordan, Melanie Hawthorne (MH).
Sylwedydd:	Peter Owen (PO)
Cyfieithu:	Aled Siôn (AS)
Cyflwyniad:	Eugene Dubens (ED)
Statws y papur:	I’w gyhoeddi.

Cam
gweithredu

- | | |
|--|--|
| <p>1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i Dŷ Pawb, canolfan y celfyddydau sydd newydd ei sefydlu. Nododd ei bod yn enghraifft wych o gydweithredu rhwng Cyngor y Celfyddydau ac awdurdod lleol blaengar (Cyngor Bwrdeistref Wrecsam).</p> <p>Estynnwyd croeso gwresog i Peter Owen, Llywodraeth Cymru ac Eugene Dubens, Prifysgol Abertawe. Estynnwyd croeso arbennig o wresog i</p> | |
|--|--|

	<p>Alan Watkin a Richie Turner, dau o'n haelodau sy'n gwasanaethu ers amser maith, oedd yn eu cyfarfod olaf o'r Cyngor.</p> <p>Nododd y Cadeirydd y byddai Marian Wyn Jones yn cyrraedd am 4.00pm ac y bydd Kate Eden yn ymuno â ni ar gyfer cinio.</p>	
<p>2.</p>	<p>Datganiadau o fuddiant</p> <p>Gofynnodd aelodau o'r Cyngor am i'r Datganiadau o Fuddiant canlynol gael eu cofnodi yn y cofnodion (wedi'u hamgáu fel atodiad i'r cofnodion hyn).</p> <p>IB – Ymchwil ar gyfer PhD gyda Phrifysgol De Cymru yn parhau. Mae'r radd MFA, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, wedi peidio â bod.</p>	
<p>3.</p>	<p>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2019</p> <p>Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p>	
<p>4.</p>	<p>Materion yn codi</p> <p><u>Aelodau o'r Cyngor</u></p> <p>Nododd PG y byddai'r aelodau newydd o'r Cyngor yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfarfod yfory. Felly byddai'n briffio'r Cyngor am yr aelodau newydd yn ystod y cyfarfod drannoeth.</p> <p>Nododd y Cadeirydd y bydd Mike Griffiths, ar ôl cyfnod hir o wasanaeth, yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Dywedodd fod y Cyngor yn wirioneddol ddiolchgar iddo am ei gyfraniad.</p> <p><u>Arolwg Staff</u></p> <p>Rhododd ST ddiweddariad i'r aelodau am gynnydd y gwaith Diwylliant a Gwerthoedd. Esboniodd hefyd sut y byddai'r Uwch Tîm Arwain yn symud ymlaen â'r materion a godwyd yn yr arolygon staff o dan bennawd cyffredinol "llesiant". Dywedodd wrth y Cyngor fod yr Uwch Tîm Arwain wedi bod ar gwrs mewnlol ardderchog ar Gyfathrebu oedd wedi cynnig llawer o ysbrydoliaeth.</p> <p>Roedd y staff wedi bod ar ddiwrnod cwrdd i ffwrdd lle roeddent wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ein Cynllun Gweithredol newydd.</p> <p>Mae'r tîm Cyfathrebu wrthi'n brysur yn creu mewnrwyd newydd i'r sefydliad ac mae mewnbwn gan y staff hefyd wedi cael ei gynnwys yn y gwaith hwn. Roedd diweddariad llawn ar yr holl waith a wnaethpwyd wedi mynd at y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol iddo graffu arno.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i ST am y diweddariad.</p>	

5. **Argymhellion ariannu (KD)**

Datganodd KD fuddiant yng nghais Neuadd Dewi Sant oherwydd aelod o'i theulu a oedd gyflogedig gan Neuadd Dewi Sant.

Cwmni Mega Cyf/Ltd

Disgrifiad o'r prosiect:

Mae'r prosiect hwn yn creu pantomeim Nadolig i bobl ifanc wedi'i seilio ar un o chwedlau'r Mabinogi. Mae Cwmni Mega wedi bod yn cynhyrchu sioeau ers blynnyddoedd lawer wrth iddo ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o theatr fyw ymysg pobl ifanc yng Nghymru.

Cymeradwydd y Cyngor y cais hwn.

Cwmni'r Frân Wen

Disgrifiad o'r prosiect: Cais ar y cyd mewn partneriaeth â Galeri am arian i gynhyrchu addasiad Cymraeg i'r llwyfan o'r nofel arobryn Llyfr Glas Nebo gan Manon Steffan Ros ac i fynd ag ef ar daith ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Bydd yn gynhyrchiad uchelgeisiol, grymus a pherthnasol i bobl ifanc a chynulleidfaoedd ehangach ar draws Cymru. Enillodd *Llyfr Glas Nebo* y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2018.

Cymeradwydd y Cyngor y cais hwn.

De Oscuro

Disgrifiad o'r prosiect: Mae Teilchion/Fragments yn gynhyrchiad theatr teirieithog (Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg) sydd â'r nod o gynnig darlun unigryw o brofiad byw plant sy'n derbyn gofal. Mae'r sgript wedi cael ei hysgrifennu gan Gwyneth Glyn a Judith Roberts.

Argymhelliad:

Mae'r Cyngor yn **gwrthod** y cais hwn. Rhoddir adborth

OPRA Cymru Cyf

Y prosiect yw'r perfformiad cyntaf yn y byd a thaith o fersiwn operatig o gampwaith llenyddol Caradog Prichard - *Un Nos Ola Leuad*. Gareth Glyn yw'r cyfansoddwr, ar gomisiwn gan OPRA Cymru. Bwriedir i'r cynhyrchiad a fydd yn mynd ar daith ddilyn y patrwm llwyddiannus a sefydlwyd yn 2017 gyda fersiwn operatig newydd Gareth o *Wythnos yng Nghymru Fydd*: denodd y cynhyrchiad hwn gynulleidfaoedd na welwyd eu tebyg o'r blaen i leoliadau ar draws Cymru. Gyda chynllun marchnata ar gyfer *Un Nos Ola*

Leuad wedi'i dargedu at ddenu cefnogaeth ysgolion (mae'r nofel yn un o lyfrau gosod lefel A), disgwylir y bydd y diddordeb gan y cyhoedd yn y perfformiadau hyd yn oed yn fwy. Cynhelir y daith ym mis Ebrill a mis Mai 2020, 40 mlynedd ar ôl marwolaeth Caradog Prichard, a bydd yn cynnwys wyth perfformiad mewn saith lleoliad ar draws y wlad.

Cymeradwyodd y Cyngor y cais hwn.

Neuadd Dewi Sant – Cerddoriaeth Glasurol yn Neuadd Dewi Sant

Mae gan Neuadd Dewi Sant enw da am gyflwyno digwyddiadau cerddorfaol a cherddoriaeth glasurol amlwg a llwyddiannus ers dros 30 mlynedd gan gynnwys cyfres cyngherddau cerddorfaol y Proms Cymreig, BBC Canwr y Byd Caerdydd, a digwyddiadau addysgol ac ysgolion. Mae'r Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol yn ganolog i raglen ddiwylliannol Neuadd Dewi Sant ac yn allweddol i ddiwylliant cerddorol cyfoethog Caerdydd. Ein nod yw datblygu'r rhaglen fel y bydd yn parhau i gael ei gwerthfawrogi gan y ddinas gyfan a ledled y rhanbarth.

Cymeradwyodd y Cyngor y cais.

Dyfarniadau Strategol y Loteri (i'w cymeradwyo)

Arloesedd yn y Celfyddydau ac Iechyd Nesta

Mae Y Lab (Nesta a Phrifysgol Caerdydd) a Chyngor Celfyddydau Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Chyddfederasiwn GIG Cymru, yn awyddus i ddeall sut y gall ymyriadau celfyddydol chwarae rhan amlycach yn iechyd a lles pobl Cymru ac, yn bwysig iawn, lle mae angen syniadau newydd er mwyn gwneud i hyn ddigwydd.

Cymeradwyodd y Cyngor y cais hwn.

Partneriaeth Horizons/Gorwelion y BBC.

Mae BBC Cymru wedi cadarnhau y bydd yn sicrhau bod £110,000 ar gael ar gyfer Gorwelion 2019/20. Mae'r prosiect wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn nhermau cydraddoldeb. Mae'r artistiaid a gynorthwywyd wedi adlewyrchu'n well yn nhermau genre, rhywedd ac amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â chydbwysedd rhwng perfformwyr Cymraeg a Saesneg.

Erbyn hyn mae gwell adnabyddiaeth o frand y prosiect. Y mis hwn cynhaliodd Sony sesiwn rhwydweithio cyn arddangosiad Wythnos Cymru yn Llundain, lle roedd llawer o'r diwydiant yn bresennol. Cafwyd partneriaethau gyda FAW (trac sain swyddogol), Croeso Cymru, Dydd Miwsig Cymru, Prifysgol De Cymru, FOCUS Wales, Radio 1 Biggest Weekend, Key Change (a menter yr Undeb Ewropeaidd ar gydraddoldeb

<p>menywod mewn cerddoriaeth) a Bafta yn ogystal â dwy raglen deledu a gomisiynwyd eleni.</p> <p>Cymeradwyodd y Cyngor yr argymhellion i ddirprwyo £115,000 o arian y Loteri at y prosiect hwn.</p> <p>Atodiad 2 – Grantiau mawr o dan £50,001 (er gwybodaeth). Cyflwynodd KD bapur yn rhestru’r Grantiau Mawr o dan £50,001 a ddyfarnwyd – er gwybodaeth. Cyflwynodd aelodau y sylwadau canlynol:</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i KD am y diweddariad.</p>	
<p>6. Polisi a Chynllunio</p> <p>6.1 Portffolio Celfyddydol Cymru: Cyflwyniad ar uchafbwyntiau’r Arolwg Rhoddodd CB gyflwyniad yn nodi tueddiadau yn lefelau cyfranogiad a mynychuadau mewn digwyddiadau a drefnwyd gan ein lleoliadau a sefydliadu eraill Portffolio Celfyddydol Cymru.</p> <p>Mynegodd aelodau bryder ynghylch yr ystadegau am y ddarpariaeth Gymraeg. Ymddangosai o’r data fod nifer fach o sefydliadau’n darparu’r rhan helaethaf o’r ddarpariaeth Gymraeg. Teimlai’r Cyngor fod angen taer am drafodaeth a gofynnodd i ST gydgyssylltu’r gwaith o ddarparu eitem ar hyn i gael ei thrafod gyda Grŵp Monitro’r Gymraeg ac yna yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.</p> <p>Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch maint ac ystod y gweithgarwch celfyddydol yn ardal Abertawe. O’r data a gyflwynwyd, ymddengys fod problem sylweddol o ran tanberfformiad yn ein hail ddinas.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i CB am ei gyfraniad.</p>	ST
<p>6.2 Ymgynghoriad y Loteri Cyflwynodd KD bapur ar y Crynodeb o’r Ymatebion i Ymgynghoriad ar Strategaeth Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru.</p> <p>Dywedodd ein bo, dros gyfnod o dri mis yn 2018/19, wedi cynnal un o’n hymgynghoriadau manylaf erioed. Gofynasom i bobl ar draws Cymru a’r tu hwnt i rannu eu barn ar sut y dylem ddyrannu arian y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol. Parodd yr ymgynghoriad o 12 Tachwedd 2018 i 15 Chwefror 2019. At hynny, cynhaliwyd pum digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn Aberystwyth, Bangor, Casnewydd, Wrecsam ac Abertawe. Cafodd y sesiynau eu hwyluso gan Dr Glenda Jones, sy’n un o’n Hasiantau Creadigol Arweiniol. Arweiniol. Daeth 164 o ymatebion ysgrifenedig i law a hefyd</p>	

<p>cymerwyd nodiadau manwl yn y sesiynau ymgynghori cyhoeddus.</p> <p>Tynnodd KD sylw at y prif bwyntiau yn yr ymatebion. Roedd y sylwadau ysgrifenedig yn fanwl ac yn helaeth, ac yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau y tu hwnt i'r 12 a nodwyd yn y papur ymgynghori ei hun</p> <p>Nododd KD y cynhelir gweithdy terfynol ar y strategaeth gyda'r staff ar 4 Ebrill. Wedyn bydd KD yn dechrau llunio papur strategaeth drafft ac yn dod â hwnnw yn ôl i'r Cyngor.</p> <p>Cytunwyd y bydd KD yn cyflwyno papur drafft ar strategaeth y Loteri i gyfarfod y Cyngor ym mis Mai.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i KD a phawb sydd wedi ymwneud â bwrw ymlaen â'r broses hon ac roedd yn werthfawr gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad.</p>	<p>KD</p>
<p>6.3 Cynllun Gweithredol 2019 / 20</p> <p>Cyflwynodd NC ddrafft arfaethedig y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2019/20. Nododd fod Cynllun eleni yn benllanw ar broses estynedig o drafod ac adolygu. Yn benodol mae'n adlewyrchu ein gwaith ehangach, fel Cyngor a staff, ar y Cynllun Corfforaethol newydd a lansiasom y llynedd. Felly dyma'r Cynllun Gweithredol cyntaf yr ydym wedi'i gynhyrchu ers cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol diweddar. Mae'n adlewyrchu ein dwy flaenoriaeth, sef sicrhau dull mwy cyfartal o gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a helpu artistiaid a sefydliadau celfyddydol i fod yn gryfach ac yn wytnach.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i NC am lunio'r cynigion ar gyfer y cynllun gweithredol drafft, gan nodi ei bod yn ddogfen ddealladwy iawn i'r gynulleidfa.</p> <p>Gofynnodd MWJ am i ddatganiad cliriach gael ei wneud ynghylch hybu gweithgarwch celfyddydol Cymraeg. Nododd NC y byddid yn ailedrych ar hyn.</p> <p>Dywedodd MG, o dan 'Pobl Ifanc a Dysgu Creadigol' t. 13, nad ymddangosai fod yna lawer o fanylion yn y blwch glas ynghylch sut y câi'r amcan ei gyflawni a gofynnodd a fydd yna gynllun pellach i roi manylion mwy penodol. Nododd NC y bydd gennym gynlluniau manwl ar gyfer pob un o'r camau gweithredu y rhoddir crynodeb ohonynt yn nogfen y cynllun. Gofynnodd MG hefyd a oedd yna feini prawf llwyddiant i fesur y targedau hyn. Dywedodd NC y bwrir ymlaen â hyn gyda'r Cynllun Corfforaethol sydd â'i dargedau ei hun ac y caiff ei fonitro'n fanwl er mwyn sicrhau cynnydd</p>	<p>NC</p>

da.

Nododd AE, yn yr adran ar Lwybrau Creadigol, yr ymddengys fod yna broblemau arweinyddiaeth mewn lleoliadau a sefydliadau celfyddydol ac y gall fod yn anodd iddynt ddarparu amgylchedd cefnogol i artistiaid ffynnu, ac awgrymodd y gallai fod o gymorth tynnu sylw at hyn yn gliriach. Nododd y Cadeirydd hyn.

Yn nhermau diwygiadau ymarferol nodwyd y canlynol:

Mae angen newid y dyddiad i fis Mawrth 2019 wrth ochr enw David Alston yn nogfen yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Roedd hefyd gwall teipograffyddol yn y blwch glas ar dudalen 14 o'r Saesneg a dylid newid hwn i "We should be doing more".

Cytunwyd y bydd y gwallau uchod yn cael eu cywiro.

Cadarnhaodd y Cyngor y cynigion ar gyfer y Cynllun Gweithredol drafft a **nododd** yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nododd y Cadeirydd y bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

6.4 Cyllideb 2019/ 2020

Cyflwynodd NC bapur yn nodi cynigion ar gyfer y cynlluniau gwariant sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn 2019/20.

Nododd NC y gwyddys beth fydd swm yr arian cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20. Bydd incwm yn dal i fod ar gael oddi wrth y Loteri Genedlaethol hyd at ddiwedd cyfnod trwydded bresennol y Loteri (Ionawr 2023). Mae'n amhosibl rhagweld union faint o incwm a gawn o'r Loteri dros y cyfnod hwn a bydd yn dibynnu ar werthiant tocynnau Loteri. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r incwm o'r Loteri wedi gostwng yn sylweddol a bydd hwn yn parhau i fod yn faes risg allweddol.

Nododd NC ein bod hefyd yn ymgynghori ar y defnydd o arian y Loteri yn y dyfodol. Nodir cynlluniau amodol yn **Atodiad 2**, er y gallai'r ffigurau hyn newid gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad. O gofio'r cysylltiadau rhwng rhaglen y Loteri a rhaglen y Strategaeth, mae'r ffigurau yn **Atodiad 1** hefyd yn amodol ar hyn o bryd. Byddwn yn dod yn ôl i'r Cyngor gyda chynigion cadarn pan fyddwn yn trafod canlyniad terfynol yr ymgynghoriad ar y Loteri.

<p>Cymeradwyodd y Cyngor y cynigion ar gyfer arian Strategol ac arian y Loteri yn 2019/20 (Atodiadau 1,2). Hefyd cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb Costau Cynnal ar gyfer 2019/20 (Atodiad 3).</p> <p>7. Creu Cymunedau Cyfoes – Eugene Dubens, Academydd, Prifysgol Abertawe a Sian Tomos, Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio</p> <p>Erbyn hyn mae'r gwerthuswr prosiect annibynnol Wavehill wedi darparu ei adroddiad terfynol ar y cynllun. Tynnodd yr adroddiad sylw at her gwerthuso dull sy'n datblygu ac sydd wedi'i seilio ar asedau o ddatblygu'r celfyddydau lle gall y canlyniadau fod yn anodd eu rhagweld.</p> <p>Rhestrodd ST y llu o ganlyniadau cadarnhaol o'r prosiect a'i gyflawniadau. Mae llawer o'r gofodau wedi'u haddasu a ddefnyddiwyd ar gyfer y prosiectau yn cario ymlaen h.y. mae Haus yn Llandudno wedi dod yn stiwdios hunangynhaliol i artistiaid ac mae rhwydwaith cadarn o artistiaid wedi cael ei sefydlu i'w gynnal. Mae prosiect Llyfrgell y Maendy yn enghraifft berffaith arall o'r ffordd y gall trosglwyddo asedau cymunedol fod o fudd i'r gymuned gyfan.</p> <p>Rhoddodd ED ei gyflwyniad ar y cynllun, gan rannu profiadau a myfyrdodau ar ei ymchwil ar gyfer PhD ar Werth Diwylliannol, oedd wedi dibynnu'n helaeth ar raglen Creu Cymunedau Cyfoes fel gwaith maes.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i ST ac Eugene am eu cyflwyniadau.</p> <p>Cytunwyd y dylai adroddiad Wavehill gael ei ddsbarthu i'r aelodau.</p> <p>Nododd y Cadeirydd y dylai'r Cyngor a'r holl staff fod yn falch o gyflawniadau'r prosiect ymchwil profi/gweithredu hwn. Mae'n galonogol dysgu y gellir cyflawni newidiadau trawsnewidiol trwy gydweithio gyda chymunedau a phartneriaid consortia.</p>	<p>HW</p>
<p>8. Adroddiadau pwyllgorau ac Adroddiad Blynyddol i'w nodi</p> <p>8.1 Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019.</p> <p>Rhoddodd KE adroddiad i'r aelodau ar y busnes a wnaethpwyd yng nghyfarfod diweddar y pwyllgor.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i KD am gynnal gweithdy cyn y cyfarfod ar Adroddiad Radar Portffolio Celfyddydol Cymru a nododd y gwaith sylweddol a gyflawnwyd gan y fîm wrth lunio'r adroddiad.</p> <p>Cafwyd trafodaeth drylwyr ynghylch Brexit yn y cyfarfod.</p>	

<p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p> <hr/> <p>8.2 Pwyllgor Cyfalaf – cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019 Rhoddodd AW adroddiad i’r aelodau ar y busnes a wnaethpwyd yng nghyfarfod diweddar y pwyllgor.</p> <p>Rhoddodd KD ddiweddariad i’r Cyngor ar ddatblygiadau yn yr holl leoliadau fel y’u nodwyd yn yr adroddiad a ddarparwyd. Roedd rhestr o’r grantiau Cyfalaf a ddyfarnwyd wedi cael ei rhannu gyda’r Cyngor.</p> <p>Cyhoeddodd AM fod Arts Council England wedi cyhoeddi canllaw newydd yn ddiweddar ar greu mynediad gwell ac awgrymodd y gallai hyn fod o ddiddordeb i’r fîm, a nodwyd hyn.</p> <p>Nododd AW mai hwn oedd ei gyfarfod olaf a’i fod yn ddiolchgar am ymroddiad fîm KD ac y bu’n bleser bod yn rhan ohono. Diolchodd y Cadeirydd i AW am ei waith ac i dîm KD.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>8.3 Grŵp Monitro Cydraddoldebau – cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019. Rhoddodd RT adroddiad i’r aelodau ar y busnes a wnaethpwyd yng nghyfarfod diweddar y pwyllgor.</p> <p>Nododd RT fod yna le gwag i aelod annibynnol newydd ymuno â’r grŵp ac fel yr awgrymwyd i’r Cyngor byddai’n well penodi rhywun o gefndir pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy’n gyfarwydd â gweithio gyda grwpiau diwylliannol amrywiol.</p> <p>Roedd adroddiad ar chwe mis cyntaf 2018/19 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cael ei gyflwyno i’r cyfarfod. Roedd hwn yn ymdrin â data o ran mynychuadau a chyfranogiad ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru. Roedd y data yn dangos rhai newidiadau cadarnhaol, ond nid ydym yn gweld cynnydd sylweddol o hyd.</p> <p>Diolchodd RT i DH, Amanda Loosemore a’r holl staff a gyfrannodd at waith y cynllun.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i RT am ei gyfraniad gwerthfawr a’i gadeiryddiaeth wrth symud yr agenda cydraddoldeb yn ei blaen. Ychwanegodd AM fod RT wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol wrth fwrw ymlaen â’r agenda. Roedd</p>	

yn ddiolchgar iawn am ei gyfaniad.

Nododd y Cyngor yr adroddiad.

8.4 Grŵp Monitro'r Gymraeg – cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2019.

Rhoddodd MWJ ddiweddariad llafar i'r aelodau ar y busnes a wnaethpwyd yng nghyfarfod diweddar y pwyllgor.

Roedd y gwaith ar Safonau'r Gymraeg yn gwneud cynnydd da ac roedd hyn yn wir yn galonogol.

Mynegwyd pryder am y wybodaeth a gyflwynwyd am theatr Gymraeg.

Roedd MWJ yn siomedig gyda'r data a gyflwynwyd a nododd fod angen eu dadansoddi ac ymchwilio iddynt ymhellach er mwyn iddynt fod yn wirioneddol ystyrlon at ddibenion cynllunio.

Nododd MWJ y bydd Bethan Webb o Lywodraeth Cymru'n cael ei gwahodd i ddod i'r cyfarfod nesaf i sôn am Siarter y Gymraeg.

Nododd y Cyngor yr adroddiad.

8.5 Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol – cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2019.

Rhoddodd ST adroddiad i'r aelodau ar y busnes a wnaethpwyd yng nghyfarfod diweddar y pwyllgor.

<p>Trafododd yr aelodau yr Adroddiad Blynyddol, y Cynllun Gweithredol a'r camau gweithredu mae angen inni eu cymryd er mwyn adrodd yn erbyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Gofynnodd y Cyngor am i CWM ddod i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad iddo am y secondiad i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	<p>KB</p>
<p>8.6 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol</p> <p>Darparodd MG i'r aelodau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol sy'n rhoi crynodeb o'r gweithgareddau yn ystod 2018/19 a diolchodd i Carys Hedd Paschalis, Eirian Castellini, DH a NC am eu cyfraniad. Talwyd teyrnged i Valerie Ellis a Phil Westwood am ddod â'u harbenigedd i'r pwyllgor.</p> <p>Rhodddwyd diweddariad ar y cylch cyflog a'r broses gwerthuso swyddi yn ogystal â diweddariad ar y datblygiadau o ran yr ail Arolwg Staff.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>9. Adroddiad y Cadeirydd (er gwybodaeth)</p> <p>9.1 Yn yr adroddiad cafwyd gwybodaeth am y digwyddiadau, cyfarfodydd neu berfformiadau yr aeth y Cadeirydd iddynt yn ddiweddar.</p>	
<p>9.2 Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru 2019/20</p> <p>Dyweddodd y Cadeirydd fod y llythyr cylch gwaith yn gadarnhaol iawn gyda phwyslais mawr ar Ymgysylltu Rhyngwladol. Roedd hefyd yn gefnogol i'n hymrwymiad i fwrw ymlaen i gyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.</p>	
<p>9.3 Recriwtio aelodau i'r Cyngor</p> <p>Cyhoeddodd y Cadeirydd fod 7 aelod newydd wedi cael eu penodi, oedd yn cynnwys pum menyw, dau aelod o gymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dau siaradwr Cymraeg a thri artist sy'n ymarfer.</p> <p>Dyma'r aelodau newydd: Dr Sara Youman, Mr Devinda Silva, Alison Mears Eswood, Lhosa Daly, Tudur Hallam, Gwenan Mair Jones, Victoria Provis.</p> <p>Byddai'r rhestr o aelodau newydd y Cyngor yn cael ei dosbarthu i'r aelodau.</p>	<p>KB</p>

<p>10. Busnes y Prif Weithredwr Rhoddodd NC adroddiad ar y digwyddiadau yr oedd wedi mynd iddynt yn ddiweddar.</p> <p><u>Cyfarfod Cyngorau'r Celfyddydau yn Nulyn</u> Roedd cyfarfod pum Cyngor y Celfyddydau wedi cael ei gynnal yn Nulyn. Roedd y pynciau i'w trafod yn cynnwys y Loteri, cynlluniau ymgysylltu a democratiaeth ddiwylliannol. Brexit a materion ar draws y Cyngorau oedd canolbwynt y drafodaeth.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>11. Adolygiad Cyflogau Rhoddodd DH ddiweddariad i'r Cyngor ar y datblygiadau o ran y broses adolygu cyflogau.</p> <p>Roedd y broses o adolygu disgrifiadau swydd wedi dod i ben yng nghanol mis Chwefror yn unol â'r bwriad. Erbyn hyn roedd yr holl staff wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar eu disgrifiadau swyddi ac roedd rheolwyr llinell wedi ychwanegu eu sylwadau hwythau. Cynhaliwyd cyfarfod cymedroli deuddydd gydag aelodau o'r Uwch Tîm Arwain, Adnoddau Dynol ac aelodau o weithrediaeth yr undeb llafur. Aeth hwnnw'n ddiraffferth a daeth yr holl aelodau i gonsensws.</p> <p>Mae'r camau nesaf yn golygu Proses Gwerthuso Swyddi. Ar ôl i'r disgrifiadau swyddi gael eu cydgasglu, caiff pob swydd ei gwerthuso yn unol â phrosesau arferol y Cyngor. (Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer apeliadau os yw aelodau o'r staff yn teimlo nad ymdriniwyd yn briodol â'r broses gwerthuso swyddi.)</p> <p><u>Cylch Cyflog</u> Rhoddodd NC ddiweddariad i'r aelodau ar y cylch cyflog. Roedd wedi cyflwyno cynnig terfynol i weithrediaeth yr undeb ac roedd yn aros am ymateb ffurfiol.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>12. Adroddiad y Cyfarwyddwyr Rhoddodd yr adroddiad cipluniau byr ar y gweithgarwch ar draws y sefydliad.</p>	

<p><u>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</u> Bydd Dewch i ddathlu! Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn cael ei lansio ar 2 Ebrill a bydd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau am ddim a gynhelir ar draws 5 diwrnod.</p> <p><u>Meithrin Gallu mewn Byrddau Iechyd</u> Mae'r gwaith o recriwtio Cydgysylltwyr Celfyddydau ac Iechyd ar y gweill ar hyn o bryd yn 6 o'r 7 Bwrdd Iechyd.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>13. Llywodraethu 13.1 Cylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau Nododd NC fod y Cyngor yn adolygu Cylchoedd Gorchwyl ei Bwyllgorau pob blwyddyn. Fel rhan o'r adolygiad eleni, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau a nodir yn y papur hwn.</p> <p>Cytunodd y Cyngor â'r diwygiadau i Gylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.</p>	
<p>13.2 Y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol Cyflwynodd NC gopi o'r adroddiad i'r Cyngor. Mae'r meysydd ar gyfer pob amcan wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau gan yr Uwch Tîm Arwain a'r Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfiaeth ym mis Chwefror. Cafodd y fersiwn ddiwygiedig ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth cyn cael ei chyflwyno i'r Cyngor</p> <p>Mae'r adran Tueddiadau yn y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol yn rhoi braslun o'r prif bwyntiau i'w nodi a ddaeth allan o'r adolygiad diweddar.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>13.3 Defnydd o'r Sêl Swyddogol Cafodd rhestri o'r dogfennau sydd wedi cael eu selio ers yr adroddiad diwethaf i'r Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor.</p> <p>Nododd y Cyngor yr adroddiad.</p>	
<p>13.4 Unrhyw fusnes arall Diolchodd y Cadeirydd o waelod calon i Alan Watkin a Richie Turner am eu cyfraniad dros y 9 mlynedd diwethaf a dymunodd yn dda iddynt.</p>	

Dyddiad y cyfarfod nesaf: dydd Gwener 17 Mai 2019, swyddfeydd Cyngor
y Celfyddydau, Caerdydd.

Cyfarfod y Cyngor:

Dydd Iau 28 Mawrth a dydd Gwener 29 Mawrth 2019:

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Eitem agenda	Cam gweithredu/Penderfyniad	Cyfrifoldeb
6.1	Byddai eitem ar y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei pharatoi i gael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.	ST
6.2	Bydd drafft o Strategaeth newydd y Loteri yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mai.	KD
6.3	Bydd datganiad cliriach yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredol ynghylch hybu gweithgarwch celfyddydol Cymraeg.	NC
7	Adroddiad Wavehill i gael ei ddsbarthu i'r Cyngor.	HW
8.5	Bydd Carys Wynne Morgan yn cael ei gwahodd i gyfarfod y Cyngor i drafod yr hyn a ddysgodd pan oedd ar secondiad yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	KB
9.3	Byddai rhestr o aelodau newydd y Cyngor yn cael ei dosbarthu i bawb	KB